



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

CYMRAEG AIL IAITH (HEN FANYLEB)

HAF 2018

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

CYMRAEG AIL IAITH – UNED 1

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

Adroddiad Cymraeg Ail iaith 2018

Eto eleni, yn gyffredinol, rhaid canmol ymdrechion yr ymgeiswyr ar y ddwy haen a chydnabod bod safon y goreuon yn Uned 4 yn ganmoladwy ac yn sylfaen ardderchog ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac ar gyfer astudio'r iaith ar lefelau uwch. Mae'n amlwg fod y gweiniaid yn Uned 1 yn rhwystredig iawn oherwydd eu hanallu i ymateb i destunau sylfaenol gan ddefnyddio cystrawennau syml, creiddiol yr iaith Gymraeg. Yn aml mae hyn nid oherwydd diffyg ymrwymiad a brwdfrydedd eu hathrawon ond oherwydd y prinder oriau cyswllt ar amserlen yr ysgol.

Uned 1 – Darllen ac Ysgrifennu.

Cwestiwn 1. Darllen – 15 marc (12 marc darllen, 3 marc ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r cwestiwn darllen hwn sy'n asesu dealltwriaeth o iaith gwbl sylfaenol ar gyd destunau addas ar gyfer eu lefelau hwy. Cwblhaodd y mwyafrif llethol y ddwy dasg gyntaf yn llwyddiannus gan ddangos dealltwriaeth o bethau sylfaenol megis amser, dyddiadau, a gweithgareddau eraill. Y goreuon yn unig llwyddodd i ymateb yn gyfathrebol i'r e-bost.

Cwestiwn 2. Ysgrifennu. 10 marc (5 cynnwys 5 mynegiant)

Y dasg yw ysgrifennu ymatebion i ddau destun sylfaenol o Gyd-destun A,

- sef
- Siopa yn fy ardal i
- Chwaraeon

Dyfarwyd 5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy am y ddau destun a 5 marc arall am ddefnyddio cystrawennau yn gywir o fewn brawddegau. Rhoddir 2 marc am ddefnyddio cystrawen rheswm yn gywir. Felly i gael y 5 marc gellir cael 3 cystrawen wahanol gywir ac 1 cystrawen rheswm neu 5 cystrawen gywir heb gynnwys rheswm.

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio 5 cystrawen wahanol er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus.

Felly o ran dyfarnu marciau iaith mae'r pwyslais ar ddefnyddio brawddegau sylfaenol yn gywir gan anwybyddu manion treiglo a sillafu.

Mae'n deg i ddweud bod mwyafrif llethol yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ysgrifennu o leiaf hanner dwsin o frawddegau cyfathrebol ac felly yn llwyddo i gael 4 neu 5 o farciau. Hefyd rhaid canmol yr athrawon am sicrhau bod mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn gallu defnyddio cymalau 'achos' yn gywir.

Rhaid canmol trwch yr ymgeiswyr am baragraffau diddorol a'u defnydd cywir o gystrawennau sylfaenol a hefyd idiomau ac ansoddeiriau addas i wneud eu gwaith yn fwy diddorol. Mae hyn yn arbennig o wir am y paragraffau ar 'chwaraeon'. Mae'n amlwg bod testunau fel hyn yn apelio at yr ymgeiswyr.

Y camgymeriadau mwyaf amlwg i'w hosgoi yw llithriadau megis.

Dw i ddim hoffi, achos mae dda, mae hoci ydy fy hoff chwaraeon,

Eto eleni hepgor y ferf ar ddechrau'r frawddeg oedd y camgymeriad mwyaf amlwg.

Cwestiwn 3 (Sylfaenol) Cwestiwn 1 (Uwch)

30 marc (24 marc am ddealltwriaeth o'r cynnwys ac ymateb yn gryno yn y proffil, 6 marc am ddealltwriaeth ac ymateb ar ffurf brawddegau yn y 3ydd person)

Mae'r dasg hon yn gyfarwydd iawn i ymgeiswyr y ddwy haen ac mae'n braf gweld bod y cynnwys yn amlwg yn apelio at drwch yr ymgeiswyr gan eu bod yn ymdrechu i ymateb i bob elfen ac yn dyfalbarhau tan ddiwedd y dasg.

Yr ail dasg oedd ysgrifennu dwy frawddeg yn y 3ydd person yn rhoi dwy ffaith am beth roedd Joe Allen yn ei ddweud yn y cyfweiliad am y dyfodol.

Dyfarnwyd 6 marc am yr adran hon sy'n asesu ymateb ysgrifenedig i ddealltwriaeth o wybodaeth benodol o'r darn darllen. Felly 3 marc yr un am ddwy frawddeg gywir yn y 3ydd person (3 x 2 = 6 marc). Roedd rhaid i'r ffeithiau fod yn gywir cyn y gellid dyfarnu marc o gwbl.

e.e. brawddegau oedd yn cael 3 marc.

Mae e /o eisiau helpu Cymru i wneud yn dda yn Euros 2020.

Mae Joe Allen yn edrych ymlaen i (at) weld Alfie yn mynd i'r ysgol

Dyfarnwyd 2 marc am frawddeg lle ceid ymdrech deg i ddefnyddio'r 3ydd person ond oedd yn cynnwys camgymeriad bach.
Brawddegau 2 marc.

Mae e /o yn eisiau helpu Cymru i wneud yn dda yn Euros 2020.

Mae Joe Allen yn edrych ymlaen i weld Alfie mynd i'r ysgol

Ni ddyfarnwyd marciau am frawddegau:

- i) lle nad oedd ymdrech i ddefnyddio'r 3ydd person mewn brawddeg.
- ii) lle nad oedd y wybodaeth yn y frawddeg yn gywir
- iii) lle defnyddid geiriau Saesneg.
- iv) lle'r oedd yr ymgeisydd yn ceisio dyfynnu o'r darn e.e. mae Joe Allen yn dweud '.....'

Erbyn hyn mae'r ymgeiswyr yn ymateb yn gynhwysfawr i lenwi'r proffil felly i godi safonau eto, mae angen hyfforddi'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Gall y dasg fod yn syml iawn ar ôl deall y cynnwys.

a) Weithiau does ond angen newid person y ferf.

rydw i'n > mae e'n , roeddwn i'n > roedd e'n , hoffwn > hoffai.

Wrth farcio dywed yr arholwyr ei bod yn gwbl amlwg fod rhai ysgolion yn paratoi eu hymgeiswyr yn fanwl - gan fod y mwyafrif yn cael marciau o 4 + - ac ysgolion eraill yn anwybyddu'r dasg hon - a gwelwyd bod eu hymgeiswyr yn ddieithriad yn cael marciau isel iawn allan o 6 marc.

- b) dylid tynnu sylw'r disgyblion at ryw'r person yn y cyfweiliad er mwyn iddynt ddefnyddio'r rhagenw cywir yn eu brawddegau.
- c) rhaid i'r ymgeiswyr gofio bod y rhan hon yn asesu dealltwriaeth yn ogystal â'r gallu i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Felly rhaid i gynnwys y brawddegau ymwneud â dyheadau Joe Allen ar gyfer y dyfodol.

Felly byddai brawddeg am ei gefndir yn yr ysgol yn amherthnasol a byddai brawddeg fel ' dydy e ddim yn gobeithio mynd i Euros 2020' yn anghywir hefyd.

Cwestiwn 4.(Sylfaenol) Cwestiwn 2 (Uwch)

Ysgrifennu 20 marc (10 cynnwys 10 mynegiant)

Y dasg oedd ysgrifennu stori i gyd- fynd â chyfres o luniau. Roedd y testun yn ymwneud ag ymweliad a Gŵyl Gerdd *Y Green Man*. Mae cyfle i'r ymgeiswyr sôn am y tywydd, bwyd, gwerysyla, canu a theithio yn ogystal â sgwrsio cyffredinol. Mae'r lluniau yn rhoi sail i'r ymgeiswyr ar gyfer ysgrifennu stori gydlynys ac mae'r canllawiau yn gofyn am o leiaf 3 brawddeg ar bob llun.

Cynnwys.10 marc.

Dyfarnwyd 2 farc cynnwys am bob llun sef 1 marc yr un am y ddwy frawddeg gyfathrebol destunol orau oedd yn adrodd y stori yn y llun. Y gair allweddol yma yw brawddegau. Disgwylir i'r ymgeiswyr wneud ymdrech deg i ddefnyddio brawddegau cyn y gellir gwobrwyo'r naratif.

Mynegiant. 10 marc.

Gwobrwyir

- a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrion gan wneud ymdrech deg i ddefnyddio brawddegau. Mae'r elfen hon yn hanfodol cyn gellir gwobrwyo marciau cynnwys.
- b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas.
- c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
- ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol ar gyfer y naratif.
- d) y gallu i ysgrifennu deialog yn ddiddorol a chywir.
- d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrion llwyddiannus.
- dd) bydd y geiriau a geir gyda phob llun yn gymorth i'r ymgeiswyr a gwobrwyir y gallu i'w ddefnyddio'n synhwyrol.

Cafwyd gan y goreuon ymatebion cynhwysfawr a diddorol ac roeddynt yn llwyddo i greu stori ddiddorol gan ddefnyddio'r lluniau fel fframwaith. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr hyn yn cadw at ofynion y dasg o ran hyd ac nid oeddynt yn treulio gormod o amser ar y dasg. Canmolodd yr arholwyr y defnydd o'r gorffennol a chysondeb gydag amser y ferf

Llwyddodd y canolig i ymateb yn llawn i'r gofynion gan ysgrifennu tua 3 brawddeg am bob llun. Ar y cyfan roeddynt yn cadw at y disgwyliadwy ond yn sicr yn llwyddo i ysgrifennu stori ddiddorol gan ddefnyddio'r lluniau fel sail i'w cynllun. Mae'r cynllun marcio yn sicrhau bod yr ymgeiswyr hyn yn cael cydnabyddiaeth deilwng am eu cynnwys (tua 6,7,8) er nad yw'r mynegiant bob amser yn cyrraedd yr un safon.

Llwyddodd canran dda o'r gweniaid ennill marciau gweddol am gynnwys ond fel arfer roedd eu marc mynegiant yn isel iawn. Gwendidau cystrawennol oedd yn eu llesteirio fwy na dim oherwydd roedd hi'n amlwg fod ganddynt eirfa weddol dda am bynciau megis yr amser, teithio, bwyta, y tywydd ac arian.

Cwestiwn 3 Uwch Darllen 30 marc (24 Darllen, 6 ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Gwyliau, Gwaith Rhan Amser a Siopa oedd cyd destunau'r ddau ddarn darllen a ddewiswyd ar gyfer y cwestiwn hwn. Erbyn hyn mae'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r dull o asesu sy'n gofyn am ddewis a dethol gwybodaeth yn ofalus er mwyn cwblhau atebion ar ffurf gridiau.

Gan nad yw'r paragraffau'n dilyn yr un drefn â'r asesiad mae angen i'r ymgeiswyr fod yn ofalus wrth ddewis y wybodaeth gywir. Ar y cyfan roedd y dasg yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng y goreuon, y canolig ac ymgeiswyr gradd D. Erbyn hyn mae'r ymgeiswyr wedi cael eu hyfforddi i chwilio am yr union air neu eiriau oedd yn ateb y cwestiwn yn lle ceisio copïo rhannau helaeth o'r darn gan obeithio cynnwys yr ateb cywir yn rhywle.

e.e. Gwyliau – Hoffi mynd - Pa Dymor? - gaeaf
Pam? hoffi sgïo

ii) Ymateb i ddarllen 6 marc.

Dewis y pwynt gorau a'r pwynt doedden nhw ddim yn hoffi yn y ddau ddarn a rhoi eu rhesymau personol am wneud hynny oedd y dasg eleni fel y llynedd. Eleni roedd gosodiad y cwestiwn gyda 'pwynt gorau' ac 'achos' o gymorth i'r ymgeiswyr

- i) Mae'r adran hon yn asesu dau beth.
- ii) Dealltwriaeth o'r pwyntiau sy yn y darn
- iii) Y gallu i fynegi'r rheswm dros eu dewis yn gywir.

I ennill 3 marc

- i) Rhaid i'r pwynt y cyfeirir ato fod yn glir i'r arholwr (nid yw'n cael ei farcio o ran cywirdeb gramadegol)
- ii) Rhaid cael rheswm da
- iii) Rhaid i'r rheswm fod wedi ei fynegi yn ramadegol gywir (anwybyddir pethau fel camsillafu a chamdreiglo). Mae'r pwyslais ar gywirdeb cystrawennol.

Rhoddyd 2 farc am ateb oedd yn cynnwys camgymeriad bach ond oedd ar y cyfan yn dangos lefel dda o gywirdeb.

Ni ddyfarnwyd marciau o gwbl i resymau oedd yn ail adrodd rhesymau o'r darn a heb ychwanegu atynt.

Atebion 3 marc

Pwynt gorau. Mynd ar wyliau gyda'r ysgol
Achos dw i'n mynd gyda ffrindiau a teithio ar y bws.
Pwynt dw i ddim yn hoffi - gwyliau yn y gaeaf
Achos - dw i ddim yn hoffi tywydd oer a dydw i ddim yn hoffi sgïo

Atebion 2 farc

Pwynt gorau. Mynd ar wyliau gyda'r ysgol
Achos dw i mynd gyda ffrindiau a teithio ar bws
Pwynt dw i ddim yn hoffi - gwyliau yn y gaeaf
Achos – dw i ddim hoffi tywydd oer na sgïo

Cwestiwn 4 Haen Uwch 20 marc (cynnwys 10, mynegiant 10)

Cafwyd ymatebion diddorol ar y tri thestun. Yn naturiol mae'r safon yn amrywio oherwydd bod ystod eang o allu ieithyddol yn Uned 1. Mae gwaith y goreuon yn ardderchog ac ni ellid disgwyl gwell gan bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg o fewn yr amser sy ar gael. Mae ganddynt afael pendant ar hanfodion yr iaith ac mae eu gwaith wedi ei gynllunio'n dda gyda pharagraff agoriadol a pharagraff i gloi ar y diwedd.

O ran cynnwys roeddem yn edrych am:

- (a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
- (b) barn bendant a synhwyrol
- (c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
- (ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- (d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

O ran mynegiant roeddem yn edrych am:

- (a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- (c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- (ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgynraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- (d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomaau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
- (dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:

- a) geisio codi safon cywirdeb eu cystrawennau sylfaenol, gan osgoi camgymeriadau megis: *achos fi'n hoffi, dw i'n eisiau, ffrindiau fi, maen ni. Es i mynd.*
- b) sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn. e.e. yn ateb i'r pwyntiau am broblemau ffasiwn.
- c) sicrhau eu bod yn cadw digon o amser ar gyfer gwneud cyfiawnder â'r cwestiwn olaf hwn.

CYMRAEG AIL IAITH – UNED 2

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

UNED 2 – YR ASESIAID DAN REOLAETH

Tasg 1 – Y Cyflwyniad Unigol

Roedd rhaid i'r cyflwyniadau fod yn seiliedig ar un o'r testunau canlynol:

- Sinema / Byd y ffilmiau
- Gwyliau
- Canu pop
- Sêr o Gymru
- Siopa
- Ardal

Glynodd bron pob canolfan at y testunau uchod ond, wrth gwrs, mae yna eithriadau'n flynyddol. Defnyddiodd un ganolfan 'Fi fy hun' fel testun ac, fel arfer, collwyd marciau cynnwys.

Unwaith eto, defnyddiwyd yr holl destunau yn helaeth ond, fel y llynedd, efallai mai Sêr o Gymru oedd yr un mwya poblogaidd. Mae'r testun yma, wrth gwrs, yn cynnig ei hunan ar gyfer gwaith ymchwil a chafwyd llawer o gyflwyniadau diddorol ar amrywiaeth fawr o 'sêr.' Braf gweld llawer o ganolfannau oedd wedi rhoi perffaith ryddid i'r ymgeiswyr siarad am unrhyw seren, ac mewn rhai ohonynt defnyddiwyd dwsin neu fwy o wahanol sêr. Unwaith eto, fodd bynnag, mewn ambell ganolfan dim ond 2, 3 neu 4 seren fel Tom Jones, Gareth Bale, Katherine Jenkins ac ati ddefnyddiwyd fel petai pawb wedi gwneud y gwaith ymchwil gyda'i gilydd yn y dosbarth dan arweiniad yr athro/athrawes. Mewn achosion o'r fath roedd y cyflwyniadau i gyd yn debyg iawn i'w gilydd. Roedd Ardal yn ddewis poblogaidd hefyd ac fe grwydrodd rhai ymhell o'u bro mebyd gan siarad am ardaloedd y magwyd eu rhieni ac ati. Doedd dim yn dweud na allent wneud hynny. Cafwyd un cyflwyniad gwych am ardal yn yr Ynys Werdd.

Ar y cyfan roedd safon y gwaith yn ganmoladwy iawn unwaith eto gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar y lefelau perthnasol. Cafwyd y cyflwyniadau diddorol, uchelgeisiol arferol gan y goreuon wrth iddynt gyfathrebu'n hyderus tu hwnt gan ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau, patrymau brawddegol, cystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir h.y. yn ateb gofynion y cynllun marcio ar y lefel uchaf. Basai safon cyflwyniadau'r goreuon yn agoriad llygaid i'r garfan honno sydd bob amser mor feirniadol o'r safon a gyrhaeddir gan ymgeiswyr Cymraeg Ail iaith. Tybed faint o'r beirniaid anweledig yma sydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i wrando ar gynnyrch y goreuon niferus. Mae nifer o'r ymgeiswyr gorau yn dysgu ar gof (fel mewn llawer o destunau eraill). Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn srgyhoeddi'r safonwyr eu bod yn deall beth maen nhw'n ei ddweud. Llwyddodd y goreuon yn y mwyafrif o ganolfannau wneud hyn.

Braf medru dweud i'r gwaelodion, ag eithrio lleiafrif bychan, wneud rhywfaint o ymdrech i gyfathrebu er mae'n drist sylweddoli bod rhai ohonynt wedi dysgu cyn lleied ar ôl pedair neu bum mlynedd o astudio'r iaith yn y sector uwchradd. Ond onid yw hyn yn wir hefyd am bynciau eraill fel Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Daeryddiaeth ac ati? Mae yna gynffon ym mhob pwnc ond mae Cymraeg Ail Iaith yn gocyn hitio mor hawdd a chyfleus hyd yn oed i'r "gwybodusion" hynny ddylai fod yn gwybod yn well.

Fodd bynnag, rhaid bod yn feiriadol o'r cam-ddefnydd o bwyntiau bwled mewn rhai canolfannau. Wrth ddefnyddio'r pwyntiau bwled fel cymorth dim ond 30 gair neu 30 llun neu gyfuniad o 30 gair a llun a ganiateir. Cafwyd rhai ymgeiswyr yn defnyddio i fyny at 19 tudalen o luniau gan ddefnyddio systemau personol o 'gyfieithu'. Mae rhaid eu bod wedi treulio dyddiau os nad wythnosau yn paratoi'r lluniau, amser y gellid fod wedi ei ddefnyddio'n fwy buddiol yn dysgu'u gwaith yn fwy trylwyr. Weithiau roedd y pwyntiau bwled, a fwriedir i roi strwythur i'r Cyflwyniad (a'r sgwrsiau a'r dasg ysgrifennu yn nhasg 2), yn troi i fod yn rhywbeth oedd yn ddim byd llai na thwyll. Fel y llynedd cafwyd rhai arferion reit amheus ac fe ofynwyd am waith pob ymgeisydd (y llafar a'r pwyntiau bwled) rhai canolfannau i sicrhau nad oedd ymgeiswyr di-euog yn cael eu cosbi.

Tasg 2 - Y Sgwrs sefyllfa (tasg pâr / grŵp o 3)

Y Dasg Lafar

Gosodwyd 5 opsiwn gan CBAC yn seiliedig ar y themâu 'Digwyddiad arbennig', 'Gwaith elusenol', 'Sinema/Byd y ffilmiau', 'Cymru/Diwylliant Cymru' ac 'Yr ardal'. Defnyddiwyd pob opsiwn. Braf nodi bod rhai canolfannau wedi defnyddio o leiaf 3 opsiwn gan adael i'r ymgeiswyr ddewis testunau oedd yn apelio atyn nhw yn hytrach na disgwyl i'r ymgeiswyr siarad am destun oedd yn apelio at yr athro/athrawes

Fel gyda'r Cyflwyniad, roedd ambell ganolfan wedi defnyddio testunau nad oedd ar y rhestr ar gyfer 2017/18. Mewn achosion o'r fath rhoddwyd y marciau mynegiant haeddiannol ond roedd rhaid cosbi wrth roi'r marciau cynnwys – yn y dasg lafar yn ogystal â'r dasg ysgrifennu. Roedd 'Yr Ardal' ar restr 2015-16 yn ogystal a 2017-18 ond roedd ambell ganolfan wedi defnyddio tasg 2015-16 yn hytrach na'r un ar gyfer 2017-18, felly collwyd marciau. Un ffae ledd arall, yn arbennig gyda 'Yr ardal', roedd ymgeiswyr yn siarad yn gyffredinol am y testun yn hytrach na chyflawni'r dasg drwy ddilyn y deg pwynt bwled ac ati. Roedd un ganolfan wedi dileu "Digwyddiad arbennig" ar y ffurflenni perthnasol gan roi "Gwyliau arbennig" yn ei le. Mae gwyliau arbennig yn gallu bod yn ddigwyddiad arbennig, wrth gwrs, ond nid oedd ymgeiswyr y ganolfan yn dilyn unrhyw dasg arbennig gyda 10 o bwyntiau bwled o gwbl – dim ond siarad yn gyffredinol am wyliau roedden nhw wedi eu mwynhau.

Ar y cyfan, roedd safon y gwaith yn debyg iawn i safon y llynedd. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig o dda gan nifer o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau, fel arfer, yn trin a thrafod yn hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ac yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen. Ymhlith y goreuon roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd pwyntiau bwled y gwahanol dasgau'n gelfydd iawn gan rai canolfannau gyda'r ymgeiswyr yn eu defnyddio'n synhwyrol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu cynigion ac hefyd wrth holi eu partner/iaid am eu cynigion hwythau. Mewn geiriau eraill, fe'u defnyddiwyd fel math o restr wirio i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y dasg. Gan y goreuon, defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, patrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir oedd yn ateb gofynion y cynllun marcio ar y lefel uchaf. Y nod, wrth gwrs, yw ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw. Yn anffodus, fodd bynnag, mewn rhai canolfannau roedd y cynnwys a'r mynegiant braidd yn siomedig ac yn rhy elfennol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan. Roedd nifer hefyd yn rhy fyr, weithiau dim ond dwy neu dair munud gan grŵp o dri oedd ar farciau'n cyfateb i'r graddau uchaf yn ôl eu canolfannau. Roedd eraill yn llawer rhy hir. Gwell hynny na bod yn rhy fyr, wrth gwrs, ond mae'r terfynau amser a roddir gan CBAC yn llawn digon.

Rhaid diolch i'r mwyafrif o ganolfannau am fod mor brydlon a threfnus gyda'r gwaith gweinyddol. Roedd hyn yn dipyn o gamp o ystyried y gwaith papur diddiwedd a diangen oedd ynghlwm wrth y dasg yma. Mae'n siwr na fydd yr un athro nac athrawes yn hiraethu amdano. Na'r safonwyr chwaith.

Y Dasg Ysgrifennu

Roedd safon y gwaith ysgrifenedig yn ganmoladwy iawn unwaith eto. Gyda'r goreuon, yr hyn gafwyd, mwy neu lai, oedd ail-adrodd neu addasu cynnwys y dasg lafar, a gwnaethpwyd hyn yn effeithiol iawn. Roedd cynnwys a safon yr iaith ysgrifenedig yn adleisio'r hyn gafwyd ar lafar ac yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefelau perthnasol.

O safbwynt cynnwys cafwyd amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn, cynllun ac adeiladwaith pendant, gwybodaeth cynhwysfawr gyda chyfraniadau estynedig, mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, tystiolaeth i gefnogi barn, naws ac awyrgylch pwrpasol ac ati. Roedd y goreuon yma'n cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. Defnyddient gystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir ac roedd elfen gref o gywirdeb yn amlygu'r gwaith. Wrth gwrs, fel gyda'r llafar, yr hyn ddisgwylir ar unrhyw lefel yw bod safon y gwaith, y cynnwys a'r mynegiant, yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.

Rhaid bod yn feirniadol o un ganolfan. Roedd gwaith bron pob ymgeisydd yn debyg iawn i'w gilydd – bron gair am air. Ni ddylai hyn ddigwydd mewn tasg sy'n cael ei chynnal dan amodau arholiad. I sicrhau nad oedd yr un ymgeisydd yn cael cam gofynwyd am waith ysgrifennu pob ymgeisydd yn y ganolfan ond unwaith eto roedd gwaith pawb yn union yr un fath heblaw am fanion bethau. Collwyd marciau cynnwys.

Fodd bynnag, i grynhoi, rhaid llongyfarch y mwyafrif o athrawon yn eu canolfannau am berfformiadau'r ymgeiswyr yn Uned 2 eleni.

CYMRAEG AIL IAITH – UNED 3

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

UNED 3 – YR ARHOLIAD LLAFAR / DARLLEN – Y Dasg Pâr/Grŵp.

Braf medru dweud i'r arholiad fod yn llwyddiannus eleni eto. Mae llawer iawn a ddwedwyd am y sgwrs sefyllfa yn Uned 2, bont yn rhinweddau neu'n ffaelecteddau, yn wir am arholiad Uned 3 yn ogystal a does dim pwynt eu hail-adrodd gan mae'r arholiad newydd fydd mewn grym y flwyddyn nesaf.

Y swigod gyda'u darnau darllen yw cam (i) sef man cychwyn yr arholiad fel y dylid fod yn hysbys i bawb erbyn hyn. Yn y mwyafrif o achosion, defnyddiodd yr ymgeiswyr a'r athrawon y darnau darllen mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rhaid dangos dealltwriaeth o gynnwys y darnau er mwyn sicrhau'r marc darllen, a gwnaethpwyd hyn yn ddigon boddhaol gan y mwyafrif o ganolfannau. Unwaith eto defnyddiwyd cynnwys y darnau fel cymorth i'r ymgeiswyr i gynnal y sgysiau – yn rhoi gwybodaeth a syniadau iddynt y gellid eu defnyddio yn eu sgysiau ei hunain. Roedd hyn ym wir am ymgeiswyr ar y marciau isaf yn ogystal â'r goreuon.

Mae cam (i) yn cyfrannu felly, nid yn unig tuag at y marc 'darllen' ond hefyd, ynghyd â'r tri cham arall, tuag at y marc llafar.

Mae dau bwrpas i'r darnau darllen felly:
rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall y darnau darllen perthnasol.

Rhoi symbyliad/au i'r ymgeiswyr i drin a thrafod y testun dan sylw gan ddilyn y canllawiau a roddir yng nghamau (ii), (iii) a (iv) yn ogystal a cham (i).

O safbwynt dyfamu'r marc 'darllen' mae'n ymddangos bod y mwyafrif o athrawon wedi dilyn cyfarwyddiadau'r tabl a roddwyd mewn adroddiadau blaenorol. Doedd dim angen i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriweth lawn o bob darn darllen. Fe aeth rhai o'r sgysiau'n hir iawn am i ymgeiswyr rhai canolfannau wneud hynny. Cofier hefyd nad dangos eu bod yn gallu darllen y darnau'n uchel yw'r nod

Braf medru dweud bod yr amseru, ar y cyfan, yn well eleni. Fodd bynnag, cafwyd rhai oedd yn rhy fyr ac eraill oedd yn llawer rhy hir. Mae'r amserau a argymhellir gan CBAC yn llawn digon. Dangoswyd dealltwriaeth yn dda gan y mwyafrif. Roedd y goreuon yn llwyddo i wneud hynny heb unrhyw gymorth o gwbl gan yr athrawon. Roedd angen mwy o help ar y gweiniaid ac yn aml, roedd cyfraniadau'r athrawon yn allweddol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ennill marc 'darllen' teilwng. Eto eleni cafwyd ambell athro/athrawes yn cyflwyno gwybodaeth o'r darnau darllen i'r ymgeiswyr yn hytrach na rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth, ac ennill marciau 'darllen' drwy wneud hynny

Fel yn sgwrs sefyllfa Uned 2 cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn dangos dealltwriath lawn o'r darnau darllen symbylus, yn trin a thrafod y testunau dan sylw'n hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen. Rhaid nodi i lawer iawn o'r "gweiniaid" gynnal sgysiau digon sylweddol hefyd.

Trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb

ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Fel gyda sgwrs sefyllfa Uned 2, ymhlith y goreuon roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant.

Defnyddiwyd cynnwys y darnau darllen symbylus yn effeithiol a chafwyd cyfeiriadau yn ôl atynt drwy gydol llawer iawn o't trafodaethau. Roedd hyn yn cadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi deall y darnau darllen symbylus ond hefyd roedd yn ychwanegu at naturioldeb y sgysiaau. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn rhai canolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd a chafwyd fawr ddim o'r cyd-adweithio sy'n rhan bwysig o'r cynllun marcio. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ail adrodd y bregeth flynyddol, mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy'r 4 cam. Rwyn siwr y bydd hyn yn wir hefyd am yr arholiad newydd. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.

I grynhoi, bu'r arholiad yn llwyddiannus iawn ar y cyfan. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled, cydwybodol ac effeithiol.

Gan mai hon fydd fy adroddiad olaf oll rhaid diolch i bawb – athrawon, arholwyr, safonwyr a swyddogion (heb anghofio'r ymgeiswyr, wrth gwrs) – am fod mor amyneddgar, cydwybodol a chwrtais dros gyfnod o newidiadau di-rif pan gollodd y Gymraeg ei statws haeddiannol mewn llawer iawn o ganolfannau yn bennaf oherwydd y Cwrs Byr. Yr athrawon oedd o dan y chwyddwydr ac o dan y lach. Y prif reswm, fodd bynnag, oedd yr amodau yr oedd rhaid i athrawon weithio oddi tanynt a'r diffyg cefnogaeth a gafwyd mewn llawer o ganolfannau h.y. diffyg statws i'r Gymraeg yn y canolfannau hynny. Roedd hyn yn arbennig wir yng Nghyfnod Allweddol 4. Mewn nifer o ganolfannau, nifer oedd ar gynnydd o flwyddyn i flwyddyn, ni chynigwyd y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith o gwbl, dim ond y Cwrs Byr gan ddisgwyl i'r athrawon gyflawni gwrthiau mewn dwy awr neu hyd yn oed un awr y bythefnos. Mae dysgu iaith yn effeithiol o dan y fath amgylchiadau bron yn amhosibl ac roedd canlyniadau'r disgyblion yma felly'n dioddef. Yn waeth fyth, roedd disgyblion yn y canolfannau yma'n cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael cymhwyster TGAU Gymraeg ail iaith Cwrs Llawn ac, fel canlyniad, yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i astudio'r pwnc ar gyfer Safon Uwch hefyd – sefyllfa oedd, yn fy marn i, yn ymylu ar yr anfoesol. Ni allai'r disgyblion yma felly fynd ymlaen i astudio'r Gymraeg yn y prifysgolion a pharatoi ar gyfer bod yn athrawon Cymraeg. Roedd disgyblion oedd eisiau astudio Cymraeg Ail Iaith hyd at y lefelau yma'n cael eu gwrthod – yng Nghymru – sefyllfa oedd yn hollol annerbyniol. Dros y blynyddoedd diweddfaf dim ond tua 40% o'r disgyblion oedd yn cael cyfle i astudio ar gyfer Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith. Nid rhyfedd felly bod llai a llai o'r ymgeiswyr yn mynd ymlaen i astudio Cymraeg yn y prifysgolion.

Mae'r Cwrs Byr bellach wedi diflannu, diolch byth. Rwy'n hyderus y caiff yr athrawon mwy o chwarae teg wrth baratoi eu disgyblion ar gyfer y cwrs newydd. Mae athrawon ac arholwyr talentog a chydwybodol yn barod i sicrhau llwyddiant. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod Cymwyster Cymru a chyrrff perthnasol eraill yn sicrhau bod Cymraeg Ail Iaith yn cael y statws haeddiannol yn yr ysgolion. Cofier hefyd bod dysgu Cymraeg Ail Iaith i ddosbarthiadau o 30 a mwy (a llawer ohonynt ddim eisiau astudio'r pwnc) yn rhywbeth hollol wahanol i ddysgu dosbarth o fyfyrwyr prifysgol sy'n astudio am radd neu ddosbarth o oedolion sy'n awyddus i feistroli'r iaith. Rhaid sicrhau pob chwarae teg a llai o feirniadaeth annheg i'r lliaws o athrawon brwdfrydig, cydwybodol ac effeithiol sy'n cynhyrchu gwaith o'r safon uchaf heb dderbyn y gydnabyddiaeth sy'n haeddiannol iddynt.

CYMRAEG AIL IAITH – UNED 4

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2018

Eto eleni tystiolaeth yr arholwyr yw bod gwaith y goreuon o safon uchel iawn o ran dealltwriaeth, creadigrwydd a chywirdeb ac wrth gwrs mae hyn yn sylfaen dda iddynt barhau i astudio'r Gymraeg neu i'w defnyddio yn gymdeithasol neu ym myd gwaith. Gwyddom wrth gwrs bod ymgeiswyr Uned 4 yn dra gwahanol i ymgeiswyr Uned 1 oherwydd eu bod yn cael cymaint mwy o oriau dysgu ac o'r herwydd yn cael cyfle go iawn i ddysgu hanfodion yr iaith o ran cystrawen, geirfa a chyd-destunau.

Yn gyffredinol, rhaid canmol yr athrawon am baratoi eu disgyblion yn addas ar gyfer y tasgau ond mae o hyd tystiolaeth nad yw rhai ymgeiswyr yn sicr sut i ymateb i rai tasgau penodol. Tynnir sylw at y tasgau hyn yma ac ar wefan CBAC

Cwestiwn 1 10 marc (Darllen 8 marc, ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen 2 farc)

Y dasg yma ydy darllen llythyr oddi wrth drefnydd Y Clwb Ieuenctid sy'n rhoi gwybodaeth am ddiwrnod agored. Mae'r dasg yn asesu dealltwriaeth o eirfa, ymadroddion a brawddegau cwbl sylfaenol a chawsom dystiolaeth bod y mwyafrif llethol wedi deall y llythyr yn llawn. Cawsom ymatebion cynhwysfawr ynglŷn â lleoliad, dyddiadau ac amseroedd gan bron bawb. Roedd rhai yn amlwg yn ansicr o ystyr y geiriau 'pethau i'w gwneud'

- ii) dyfarnwyd 2 farc am ymateb yn ddealladwy a chyfathrebol i'r elfen hon.
drychem am ymateb synhwyrol dealladwy - megis *ydw*, *nac ydw*, *dw i'n gallu dod*, *ie fi'n dod*, *na ddim yn dod* (1 marc)

Dewis rhywbeth i wneud yn y bore e.e. mynd ar y cyfrifiadur neu sesiwn dawnsio.

Cwestiwn 2. 15 marc (8 marc cynnwys, 7 marc iaith)

Y dasg oedd ysgrifennu'n bersonol mewn brawddegau llawn ar destunau cyfarwydd ar gyfer gwefan yr ysgol.

Roedd y tri thestun – Cartref, Cadw'n iach a heini a Dydd Sadwrn yn gyfarwydd i'r ymgeiswyr ond wrth gwrs roedd hi'n hanfodol eu bod yn ymateb trwy ysgrifennu am y meysydd penodol o fewn bob testun. Ar y cyfan rhaid canmol ymdrechion y mwyafrif mawr am waith diddorol oedd yn sicr yn gyfathrebol ac ag elfen dda o gywirdeb.

Dyfarnwyd 8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy dros y tri darn ond roedd rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno o leiaf dwy ffaith ar y tair adran i gael 8 marc cynnwys. Dyfarnwyd hyd at 7 marc am gystrawennau a ddefnyddiwyd yn gywir yn yr ymatebion. Gyda mynegiant, rhoddir 4 marc am ddefnyddio pedair cystrawen wahanol yn gywir a 3 marc am un gystrawen gywir yn y Gorffennol / Amherffaith er mwyn ymateb i'r adran olaf - pethau wnaethoch ddydd Sadwrn diwethaf?

Ar y cyfan, llwyddodd canran uchel i ymateb yn llwyddiannus i'r gofynion gan ddefnyddio'r amrywiaeth o gystrawennau oedd yn angenrheidiol i ymateb yn llwyddiannus. Eleni eto gwelwyd gwelliant sylweddol yn y defnydd o'r amser Gorffennol cryno, defnydd o 'nes i' a 'ddaru mi' ac Amherffaith.

Cwestiwn 3 (Sylfaenol) 1 (Uwch) Darllen 20 marc (16 darllen, 4 deall ac ymateb yn ysgrifenedig)

Darllen dau ddyddiadur ar themâu cyfarwydd i bobl ifanc oedd y dasg a dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasgau llenwi grid. Yn yr ail ran, roedd rhaid iddynt ddweud ai prynhawn a noswaith Jane neu Peter oedd eu dewis hwy ac egluro pam.

Yn yr ail ran mae rhaid i'r cynnwys fod yn gywir o ran gwybodaeth cyn y gellir dyfarnu marc am gywirdeb yr ymateb. Dyfarnwyd 2 farc am ymatebion oedd ag elfen dda iawn o gywirdeb ac 1 marc am elfen dda o gywirdeb (yn cynnwys 1 camgymeriad bach nad oedd yn amharu ar yr ystyr)

Dyma enghreifftiau gyda'r marc
2 farc Prynhawn Peter (tic)
Achos *dw i'n hoffi car BMW* a cyfrifiadur 2 Farc
Achos *dw i hoffi car BMW* a cyfrifiadur 1 marc

Cwestiwn 4 (Sylfaenol) 2 (Uwch) Ysgrifennu 30 (15 cynnwys, 15 mynegiant)

Y dasg eleni oedd ysgrifennu ar dri thestun o Gyd-destun B sef, Eich teulu, Technoleg ac Amser hamdden. Mae'r marciau a roddir am bob topig yn ganllaw ynglŷn â hyd y paragraffau sydd eu hangen ar bob topig.

- i) Eich Teulu - ymatebodd ymgeiswyr y ddwy haen yn ddiddorol i'r testun. Nid oes angen ond rhyw dair brawddeg yma i gael y marciau llawn o ran cynnwys. O ran cystrawen defnyddio'r gystrawen 'gyda /gan' yw'r maen tramgwydd. *e.e. Mae gwallt golau gan / gyda mam a'r gweiniaid yn ysgrifennu - mae mam yn gwallt golau*
- ii) Technoleg - mae'n amlwg fod y testun yn apelio at ymgeiswyr y ddwy haen a chafwyd ymatebion diddorol iawn yn enwedig ar y defnydd o dechnoleg yn eu hysgolion.
- iii) Amser hamdden - cafwyd ymatebion diddorol gan ymgeiswyr y ddwy haen a chan yr ymgeiswyr gorau cafwyd defnydd pwrpasol a chywir o amserau priodol y ferf.

Cwestiwn 3 Haen Uwch Darllen 20 marc (16 darllen, 4 ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig)

Llywodraeth Cymru a Phobl Ifanc oedd testun y darn darllen digon uchelgeisiol eleni. Er ei fod yn uchelgeisiol o ran geirfa a chystrawen roedd hi'n galonddid gweld bod yr ymgeiswyr gorau wedi dangos dealltwriaeth gyflawn ohono ac yn sicr mae gan yr ymgeiswyr hyn sylfaen ardderchog ar gyfer mynd ymlaen i astudio testunau darllen lefel A Ail iaith.

Rhan ii (4 marc)

Mae'r cwestiwn hwn yn asesu dealltwriaeth o rannau arbennig o'r darn darllen ac yn asesu gallu'r ymgeisydd i fynegi hynny mewn iaith gywir.

2 farc am ateb sy'n dangos dealltwriaeth + elfen dda iawn o gywirdeb

1 marc am ateb sy'n dangos dealltwriaeth + elfen dda o gywirdeb (efallai'n cynnwys camgymeriad bach)

0 marc am ateb nad yw'n dangos dealltwriaeth (er efallai'n ramadegol gywir)

0 marc am ateb sy'n dangos dealltwriaeth ond yn wallus o ran cystrawen.

Yn sicr mae eisiau annog ymgeiswyr i ddarllen y cyfarwyddiadau yn fanwl yn yr adran hon oherwydd mae'r hyn a ofynnir amdano yn gwahaniaethu o flwyddyn i flwyddyn.

Atebion 2 farc

- ff) *cytuno - achos dw i'n meddwl basai disgyblion wedyn yn gallu gwneud gwaith rhan amser yn y prynhawn.*
- f) *Anghytuno - achos basai pobl ifanc yn mynd i'r dref wedyn i gael cinio a gwneud pethau drwg.*

Cwestiwn 4 Haen Uwch Ysgrifennu 30 marc (cynnwys 15, mynegiant 15)

Ymateb i unrhyw un o dri gosodiad oedd y dasg eleni ac roedd digon o bethau yn y gosodiad y gallai ymgeiswyr ymateb iddynt.

Goreuon.

Nodweddion da.

Agoriad pwrpasol oedd yn ymateb i'r gosodiad ar ei ben.

e.e. dw i'n meddwl bod eisiau newid llawer o bethau yn yr ysgol achos mae'r ysgol yn hen ffasiwn.

Dw i'n meddwl bod cadw'n iach a heini yn bwysig iawn i bobl ifanc a dw i'n cytuno efo Llywodraeth Cymru bod eisiau peidio dechrau ysmygu;

Paragraffu effeithiol er mwyn rhoi trefn ar eu meddyliau a gwneud eu pwyntiau'n gryno o fewn yr amser sy ar gael;

Ceisio rhoi dwy ochr y ddadl gan ddefnyddio ymadroddion megis 'ar y llaw arall' 'mae rhai o fy ffrindiau yn meddwl ...';

Ceisio gwneud pedwar pwynt gwahanol;

Crynhoi eu syniadau yn y paragraff olaf gan nodi eu safbwyntiau personol yn glir ac effeithiol.

Yn sicr roedd safon y goreuon yn wirioneddol ardderchog ac yn adlewyrchu'r ddarpariaeth drylwyr a geir mewn ysgolion o ran amser cwricwlaid ac adnoddau dysgu. Heb os nac oni bai mae gan yr ymgeiswyr hyn y gallu a'r adnoddau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddeallus yn eu cymunedau ac yn y byd gwaith.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk